

GWYL GWANWYN 2022

Wedi dwy flynedd o ymdopi gyda COVID a'r cyfyngiadau angenrheidiol sydd wedi cael effaith ar bawb yn Nolwyddelan, awgrymodd Kirsty Lloyd-Jones, aelod o Fenter Siabod, ein bod yn trefnu gŵyl ar gyfer y pentref gan roi cyfle i bobl ddod at ei gilydd unwaith eto a mwynhau diwrnod bach allan.

Bu i Fenter Siabod sicrhau cyllid gan Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru a Grŵp Cynefin. Aeth yr arian tuag at gostau cynnal y digwyddiad.

Penderfynodd Menter Siabod y dylai unrhyw drigolion a busnesau lleol oedd yn dymuno gwerthu yn y diwrnod hwyl gael cynnig stondin/bwrdd am ddim a'i bod yn bwysig bod mynediad i'r digwyddiad hefyd am ddim i bawb. Bu i Ysgol Dolwyddelan ganiatáu yn garedig iawn i'r digwyddiad gael ei gynnal ar gae chwarae ac iard yr ysgol.

O'r diwedd, wedi misoedd o waith caled a threfnu gan aelodau Menter Siabod, daeth diwrnod Gŵyl y Gwanwyn ac yn ffodus iawn roedd y tywydd yn sych, er ychydig yn oer erbyn diwedd y pwn.

Roedd dros ddau ddwsin o atyniadau gan gynnwys tombola, stondinau gwerthu cacennau, planhigion, anrhegion, trugareddau, stondinau crefft gwnïo a stondinau celf. Roedd hefyd gwahanol sgiliau'r syrcais i bobl roi cynnig arnynt! Yn ychwanegol, roedd yno gwrs rwystrau ar gastell neidio 110 troedfedd oedd am ddim i bawb ei fwynhau ac roedd yn boblogaidd iawn ymysg y plant (a rhai oedolion). Yn garedig iawn, bu i gynrychiolwyr o'r gwasanaethau Achub Mynydd a'r Heddlu hefyd

